OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 2386

# Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2007

**Darpariaethau sy'n dod i rym at ddibenion penodol**

**2.**—(1) Mae darpariaethau Deddf 2006 a osodir ym mharagraff (2) yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud i'r graddau y maent yn rhoi pwer, neu'n gosod dyletswydd, ar Weinidogion Cymru—

(a) i wneud rheoliadau, neu i wneud darpariaeth drwyddynt;

(b) i roi canllawiau neu gyfarwyddiadau; neu

(c) i wneud darpariaeth parthed arfer unrhyw bwer o'r fath neu parthed cyflawni dyletswydd o'r fath.

(2) Y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

adran 3(5);

adran 6(4);

adran 7(4);

adran 8(1) a (2);

adran 11(5) a (6);

adran 12(a);

adran 13(1)(a);

adran 14;

adran 17(3) a (10);

adran 19(6);

adran 20(2) a (3);

adran 21(2) a (3);

adrannau 22 i 25;

adran 29(1) a (6);

adran 31(6)(a);

adran 39(6);

adran 40;

adran 42(4);

adrannau 43 a 44;

adran 50(1) a (4) i (6);

paragraffau 2(2)(d) a (3), 3(2)(e) a (3), 4(6), 5(3), 6(3), 7(3), 8(3), 9(4) a 10 o Atodlen 2; a

paragraffau 2(1), (5) a (6), 4, 5 ac 8(2) a (3) o Atodlen 3.